*Statws This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2011 Rhif 107 (Cy.26)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Addysg (Cwricwlwm Lleol ar gyfer Myfyrwyr 16 i 18 Oed) (Cymru) 2011

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *20 Ionawr 2011* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *21 Ionawr 2011* |
| *Yn dod i rym - -* | *14 Chwefror 2011* |

Mae Gweinidogion Cymru drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 33D(3), 33E(3), 33G(3), 33I(3), a 152 o Ddeddf Dysgu a Medrau 2000(**1**) yn gwneud y Rheoliadau canlynol.

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Cwricwlwm Lleol ar gyfer Myfyrwyr 16 i 18 Oed) (Cymru) 2011 ac maent yn dod i rym ar 14 Chwefror 2011.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

### Dehongli

**2.** Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "cymhwyster sgil allweddol" ("*key skill qualification*") yw cymhwyster a restrir felly yng Nghronfa Ddata Cymwysterau Cymeradwy Cymru(**2**) a gynhelir ac a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru o bryd i'w gilydd;

ystyr "Deddf 2000" ("*the 2000 Act*") yw Deddf Dysgu a Medrau 2000;

mae i "disgybl cofrestredig" yr ystyr a roddir i "*registered pupil*" yn adran 434 o Ddeddf Addysg 1996(**3**);

ystyr "diwrnod gwaith" ("*working day*") yw unrhyw ddiwrnod nad yw'n ddydd Sadwrn, yn ddydd Sul, nac yn ŵyl y banc o fewn ystyr Deddf Bancio a Thrafodion Ariannol 1971(**4**);

(**1**) 2000 p.21. Mewnosodwyd adran 33D gan adran 25 o Fesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 (mccc 1). Mewnosodwyd adran 33E gan adran 26 o Fesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009. Mewnosodwyd adran 33G gan adran 28 o Fesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 ac mewnosodwyd adran 33I gan adran 30 o Fesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009.
(**2**) Cyfeiriad y wefan ar gyfer Cronfa Ddata Cymwysterau Cymeradwy Cymru yw www.daqw.org.uk.
(**3**) 1996 p.56.
(**4**) 1971 p.80.

ystyr "pwyntiau" ("*points*") yw'r pwyntiau a ddyrennir i gwrs neu gyrsiau astudio gan Gronfa Ddata Cymwysterau Cymeradwy Cymru;

ystyr "sefydliad" yw sefydliad yn yr ystyr a roddir i "*institution*" gan adran 33N(1) o Ddeddf 2000 ond nid yw'n cynnwys y sefydliadau a restrir yn Atodlen 1; ac

ystyr "tymor y gwanwyn" ("*spring term*") yw'r ail dymor ysgol yn y flwyddyn ysgol yn yr ysgol y mae'r disgybl yn ddisgybl cofrestredig ynddi ac sy'n digwydd yn y flwyddyn ysgol yn union o flaen y flwyddyn ysgol pan fydd y disgybl yn peidio â bod o oedran ysgol gorfodol.

**Dyfarnu ysgol berthnasol neu sefydliad perthnasol disgybl**

**3.**—(1) Rhaid i gais gan ddisgybl cofrestredig am ddyfarniad gan bennaeth ysgol ynghylch ysgol berthnasol neu sefydliad perthnasol disgybl o dan adran 33D(1) o Ddeddf 2000 gael ei wneud yn ysgrifenedig i'r pennaeth ysgol o fewn 15 diwrnod gwaith ar ôl dechrau tymor y gwanwyn.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (3) rhaid i bennaeth ysgol wneud dyfarniad o dan adran 33D(1) o Ddeddf 2000 ynghylch ysgol berthnasol neu sefydliad perthnasol disgybl o fewn 5 diwrnod gwaith ar ôl cael y cais gan ddisgybl cofrestredig.

(3) Cyn gwneud dyfarniad o dan adran 33D(1) o Ddeddf 2000 rhaid i bennaeth ysgol ymgynghori â'r canlynol—

(a) y disgybl a rhiant y disgybl;

(b) pennaeth ysgol unrhyw ysgol arall y mae o'r farn ei bod yn angenrheidiol ymgynghori ag ef;

(c) pennaeth sefydliad unrhyw sefydliad y mae o'r farn ei bod yn angenrheidiol ymgynghori ag ef; ac

(ch) unrhyw bersonau eraill y gwêl y pennaeth ysgol yn dda i ymgynghori â hwy.

(4) Mae unrhyw hysbysiad ysgrifenedig a roddir gan y disgybl i'r pennaeth ysgol sy'n datgan nad yw'n bwriadu gwneud cais i'r pennaeth ysgol i wneud dyfarniad o dan adran 33D(1) yn derfynol.

**Dewisiadau disgybl o gyrsiau cwricwlwm lleol**

**4.** Ni chaiff disgybl ddewis dilyn cwrs neu gyfuniad o gyrsiau astudio o fewn cwricwlwm lleol os yw cyfanswm pwyntiau'r cwrs hwnnw neu'r cyfuniad hwnnw o gyrsiau astudio yn fwy na 200 o bwyntiau heb gynnwys unrhyw bwyntiau a ddyrannwyd i gwrs neu gyrsiau astudio sy'n arwain at gymhwyster sgil allweddol neu gymhwyster bagloriaeth Cymru y mae disgybl wedi dewis ei ddilyn neu eu dilyn.

**Hyd y cyfnod pan fo'n rhaid i'r disgybl ddewis**

**5.** Rhaid i ddisgybl ddewis yn ystod tymor y gwanwyn dilyn cwrs neu gyrsiau astudio o fewn cwricwlwm lleol.

**Penderfyniad y pennaeth ysgol neu'r pennaeth sefydliad ynghylch hawlogaeth**

**6.**—(1) Os bydd pennaeth ysgol neu bennaeth sefydliad ar gyfer ysgol berthnasol neu sefydliad perthnasol disgybl yn penderfynu o dan adran 33G(1) o Ddeddf 2000 nad oes hawlogaeth gan ddisgybl i ddilyn cwrs neu gyrsiau astudio rhaid iddo wneud hynny o fewn y cynharaf o'r canlynol—

(a) 3 diwrnod gwaith cyn dechrau'r cyfnod hawlogaeth, neu

(b) 3 diwrnod gwaith cyn dechrau'r cwrs neu gyrsiau astudio y mae myfyriwr wedi dewis ei ddilyn neu eu dilyn o dan adran 33E o Ddeddf 2000.

(2) Os bydd pennaeth ysgol neu bennaeth sefydliad ar gyfer ysgol berthnasol neu sefydliad perthnasol disgybl yn penderfynu hynny rhaid iddo o fewn 3 diwrnod gwaith o'r penderfyniad hwnnw hysbysu'r disgybl a rhiant y disgybl yn ysgrifenedig am y materion canlynol—

(a) y penderfyniad a'r rhesymau drosto;

(b) y caiff y disgybl neu riant y disgybl wneud cais i'r pennaeth ysgol neu i'r pennaeth sefydliad adolygu'r penderfyniad hwnnw;

(c) o fewn pa gyfnod y mae'n rhaid gwneud cais o'r fath; ac

(ch) y caiff y disgybl neu riant y disgybl wneud sylwadau yn ysgrifenedig ynghylch y penderfyniad hwnnw i'r pennaeth ysgol neu i'r pennaeth sefydliad.

(3) Rhaid i gais gan ddisgybl neu riant y disgybl o dan baragraff (2)(b) ac unrhyw sylwadau o dan baragraff (2)(ch) gael eu gwneud o fewn 5 diwrnod gwaith ar ôl iddo gael hysbysiad y pennaeth ysgol neu'r pennaeth sefydliad am ei benderfyniad.

(4) Os bydd disgybl neu riant y disgybl yn gwneud cais o dan baragraff (2)(b) i bennaeth ysgol neu i bennaeth sefydliad adolygu ei benderfyniad rhaid i'r pennaeth ysgol neu'r pennaeth sefydliad wneud dyfarniad o fewn 10 diwrnod gwaith ar ôl iddo gael y cais ac wrth iddo wneud hynny rhaid iddo ystyried—

(a) o dan ba amgylchiadau y cafodd ei benderfyniad ei wneud;

(b) unrhyw sylwadau ysgrifenedig a wnaed gan ddisgybl neu riant y disgybl ynghylch y penderfyniad hwnnw; ac

(c) unrhyw amgylchiadau eraill y mae o'r farn eu bod yn berthnasol.

(5) Rhaid i'r pennaeth ysgol neu'r pennaeth sefydliad o fewn 3 diwrnod gwaith o'i ddyfarniad yn unol â pharagraff (4), hysbysu'r disgybl a rhiant y disgybl yn ysgrifenedig am y rhesymau drosto.

(6) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys yn unig o ran y dewisiad cyntaf y mae disgybl yn ei wneud o dan adran 33E(1) o Ddeddf 2000 yn unol â rheoliad 5 (ac nid o ran unrhyw ddewisiad wedyn).

**Penderfyniad pennaeth ysgol neu bennaeth sefydliad i ddileu hawlogaeth**

**7.**—(1) Os bydd pennaeth ysgol neu bennaeth sefydliad ar gyfer ysgol berthnasol neu sefydliad perthnasol disgybl yn penderfynu o dan adran 33I(1) o Ddeddf 2000 nad oes bellach gan ddisgybl hawlogaeth i ddilyn cwrs neu gyrsiau astudio, rhaid iddo o fewn 3 diwrnod gwaith o'r penderfyniad hwnnw hysbysu'r myfyriwr am y materion canlynol—

(a) y penderfyniad a'r rhesymau drosto;

(b) y caiff y myfyriwr wneud cais i'r pennaeth ysgol neu i'r pennaeth sefydliad adolygu'r penderfyniad hwnnw;

(c) o fewn pa gyfnod y mae'n rhaid gwneud cais o'r fath; ac

(ch) y caiff y myfyriwr wneud sylwadau yn ysgrifenedig ynghylch y penderfyniad hwnnw i'r pennaeth ysgol neu i'r pennaeth sefydliad.

(2) Nid oes gan ddisgybl hawlogaeth i ddilyn y cwrs neu'r cyrsiau astudio ar ôl dyddiad penderfyniad y pennaeth ysgol neu'r pennaeth sefydliad o dan adran 33I(1) o Ddeddf 2000.

(3) Rhaid i gais gan fyfyriwr o dan baragraff (1)(b) ac unrhyw sylwadau o dan baragraff (1)(ch) gael eu gwneud o fewn 5 diwrnod gwaith ar ôl iddo gael hysbysiad y pennaeth ysgol neu'r pennaeth sefydliad am ei benderfyniad.

(4) Os bydd myfyriwr yn gwneud cais o dan baragraff (1)(b) i bennaeth ysgol neu i bennaeth sefydliad adolygu ei benderfyniad, rhaid i'r pennaeth ysgol neu'r pennaeth sefydliad wneud dyfarniad o fewn 10 diwrnod gwaith ar ôl iddo gael y cais ac wrth iddo wneud hynny rhaid iddo ystyried—

(a) o dan ba amgylchiadau y cafodd ei benderfyniad ei wneud;

(b) unrhyw sylwadau ysgrifenedig a wnaed gan fyfyriwr ynglŷn â'r penderfyniad hwnnw; ac

(c) unrhyw amgylchiadau eraill y mae o'r farn eu bod yn berthnasol.

(5) Rhaid i'r pennaeth ysgol neu'r pennaeth sefydliad o fewn 3 diwrnod gwaith o'i ddyfarniad yn unol â pharagraff (4), hysbysu'r myfyriwr yn ysgrifenedig amdano a'r rhesymau drosto.

**Terfynau amser**

**8.** At ddibenion cyfrifo'r cyfnodau y cyfeirir atynt yn rheoliadau 3(1) a (2), 6(2), (3), (4) a (5) a 7(1), (3), (4), a (5), bernir bod yr hysbysiad neu'r cais wedi dod i law'r person o dan sylw—

(a) os defnyddir y post dosbarth cyntaf, ar yr ail ddiwrnod gwaith ar ôl dyddiad ei bostio;

(b) os caiff yr hysbysiad ei draddodi â llaw, dyddiad ei draddodi;

(c) os defnyddir post electronig, ar y diwrnod y caiff ei anfon,

oni ddangosir i'r gwrthwyneb.

*Leighton Andrews*
Y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes, un o Weinidogion Cymru

20 Ionawr 2011

## YR ATODLEN

Rheoliad 2

Sefydliadau nad yw'r Rheoliadau hyn yn gymwys iddynt

**1.** Cymdeithas Addysg y Gweithwyr — Rhanbarth Gogledd Cymru.

**2.** Cymdeithas Addysg y Gweithwyr — Rhanbarth De Cymru.

**3.** Cyngor Cenedlaethol Cymdeithasau Cristnogol Dynion Ieuainc Cymru.

---

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mewnosododd Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 ("y Mesur") ddarpariaethau newydd yn Rhan 2 o Ddeddf Dysgu a Medrau 2000 ("Deddf 2000"). Mae Rhan 2 o Ddeddf 2000 yn ymwneud â'r chweched dosbarth mewn ysgolion a sefydliadau addysg bellach yng Nghymru. O ganlyniad i Ran 2 o'r Mesur y caiff y cwricwlwm ar gyfer y chweched dosbarth mewn ysgolion a sefydliadau yn y sector addysg bellach yng Nghymru, ei ehangu i gynnwys hawlogaethau cwricwlwm lleol ar gyfer disgyblion sydd wedi peidio â bod o oedran ysgol gorfodol, ond nad ydynt hyd yn hyn wedi cyrraedd 19 oed. Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ynghylch y dewisiadau y caiff myfyriwr eu gwneud, penderfyniad y pennaeth ysgol neu'r pennaeth sefydliad ynghylch hawlogaeth, dyfarniad ysgol berthnasol neu sefydliad perthnasol y disgybl a phenderfyniad y pennaeth ysgol neu'r pennaeth sefydliad i ddileu hawlogaeth.

Mae rheoliad 3 yn darparu bod cais gan ddisgybl i gael dyfarniad gan bennaeth ysgol ynghylch ei ysgol berthnasol neu ei sefydliad perthnasol yn gorfod cael ei wneud o fewn 15 diwrnod gwaith ar ôl dechrau tymor y gwanwyn. Mae rheoliad 3 yn darparu ymhellach fod yn rhaid i bennaeth ysgol wneud y dyfarniad o fewn 5 diwrnod gwaith ar ôl i'r pennaeth ysgol gael hysbysiad am gais y disgybl am ddyfarniad o'r fath.

Mae rheoliad 4 yn darparu na chaiff disgybl ddewis dilyn cwrs neu gyrsiau astudio os yw cyfanswm pwyntiau cwrs neu gyrsiau o'r fath yn fwy na 200. Rhaid i ddewis o'r fath gael ei wneud yn ystod tymor y gwanwyn yn y flwyddyn cyn i'r disgybl beidio â bod o oedran ysgol gorfodol (rheoliad 5).

Mae rheoliad 6 yn darparu ar gyfer y weithdrefn sydd i'w dilyn gan y pennaeth ysgol neu'r pennaeth sefydliad pan fydd yn dyfarnu, yn unol ag adran 33G(1) o Ddeddf 2000, a oes hawlogaeth gan y disgybl i ddilyn cwrs neu gyrsiau astudio. Mae rheoliad 6 hefyd yn darparu ar gyfer y weithdrefn sydd i'w dilyn os bydd disgybl yn dymuno gwneud cais i'r pennaeth ysgol neu i'r pennaeth sefydliad adolygu ei ddyfarniad o dan adran 33G(1) o Ddeddf 2000.

Mae rheoliad 7 yn darparu ar gyfer y weithdrefn sydd i'w dilyn gan y pennaeth ysgol neu'r pennaeth sefydliad pan fydd yn dyfarnu, yn unol ag adran 33I(1) o Ddeddf 2000, nad oes bellach gan ddisgybl hawlogaeth i ddilyn cwrs neu gyrsiau astudio. Mae rheoliad 7 hefyd yn darparu ar gyfer y weithdrefn sydd i'w dilyn os bydd disgybl yn dymuno gwneud cais i'r pennaeth ysgol neu i'r pennaeth sefydliad adolygu ei ddyfarniad o dan adran 33I(1) o Ddeddf 2000.

Mae rheoliad 8 yn gwneud darpariaeth ar gyfer pennu'r terfynau amser i hysbysiadau o dan y Rheoliadau hyn.